WREXHAM CITY BOARD

# Bwrdd Dinas Wrecsam Chod Ymddygiad, Cyfrinachedd a Chwynion f2

## 1. Ymddygiad

Disgwylir i aelodau Bwrdd Dinas Wrecsam gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan, fel y'i diffinnir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus:

**Anhunanoldeb** – Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig
**Cywirdeb** - Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt yn amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu neu wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu fanteision materol eraill iddyn nhw eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw wrthdaro o ran buddiannau neu berthnasoedd.
**Gwrthrychedd** - Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac yn ôl teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarnu.
**Atebolrwydd** – Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithrediadau a rhaid iddynt fod yn destun unrhyw graffu sy'n ofynnol i sicrhau hyn.
**Bod yn Agored** - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid cadw gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.
**Gonestrwydd** - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ddweud y gwir.
**Arweinyddiaeth** - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain a thrin eraill gyda pharch. Dylent hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yn weithredol a herio ymddygiad gwael lle bynnag y bo'n digwydd.

## 2. Cyfrinachedd

Wrth gyflawni ei waith, efallai y bydd Bwrdd Dinas Wrecsam yn cael gwybodaeth y dylai ei hystyried yn gyfrinachol a/neu wedi'i heithrio, er enghraifft, adroddiadau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu fasnachol sensitif. Gallai aelod o'r bwrdd, un o swyddogion y Cyngor neu drydydd parti ddarparu'r wybodaeth hon. Gallai gynnwys gwybodaeth y byddai ei datgelu yn gallu niweidio buddiannau masnachol person, hawliau eiddo, gwybodaeth am berson neu bersonél a data personol sensitif o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Bydd pob aelod o Fwrdd Dinas Wrecsam:

- yn trin pob gwybodaeth gyfrinachol/wedi'i heithrio yn gyfrinachol ac yn ei diogelu yn unol â hynny.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

- yn peidio â datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol/wedi'i heithrio i unrhyw berson arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cadeirydd, ac eithrio i'r personau ac i'r graddau y bo'n angenrheidiol i gyflawni amcanion Bwrdd Dinas Wrecsam.

Mae gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei diffinio'n unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**3. Cwynion**
Os yw unigolyn yn anfodlon â'r gweithdrefnau a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer y Bwrdd, dylent godi eu pryder gydag aelod o'r Ysgrifenyddiaeth.

Os yw unigolyn yn anfodlon â Bwrdd Dinas Wrecsam neu ymddygiad aelod o'r bwrdd, dylai'r unigolyn wneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd Bwrdd Dinas Wrecsam yn ysgrifenedig. Dylent fanylu ar natur y gŵyn, a fydd yn cael ei ymchwilio yn unol â Gweithdrefn gwyno Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Funded by UK Government Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU